Y frwydr rhwng Abeia a Jeroboam

2 Cronicl 13: 1-22

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	2 Cronicl 13: 1-22		
1	Arweiniodd Jeroboam wrthryfel yn erbyn y brenin Rehoboam. Oherwydd hyn rhannwyd y wlad. Roedd Israel yn y Gogledd (10 o lwythi) o dan arweiniad Jeroboam a Jwda yn y De (2 lwyth) o dan arweiniad Rehoboam.		
2	Bu Rehoboam yn teyrnasu yn Jerwsalem am un deg a saith o flynyddoedd. Pan fu farw Rehoboam death ei fab Abeia ddaeth yn frenin yn ei le.		
3	Roedd Jeroboam yn arwain yn y Gogledd. Er mwyn stopio pobl Israel rhag mynd i Jwda i addoli yn y deml fe adeiladodd Jeroboam lefydd newydd iddyn nhw gael addoli. Roedd un yn Bethel a'r llall yn Dan.		

4	A dyma fe'n gosod un tarw aur yn Bethel, a'r llall yn Dan. Gwnaeth i Israel bechu yn ofnadwy. Dyma fe'n gwneud pob math o bobl yn offeiriaid — pobl oedd ddim o lwyth Lefi.	
5	Pan glywodd Jeroboam fod Rehoboam wedi marw ac Abeia yn frenin ar Jwda, dyma Jeroboam yn dod allan yn ei erbyn gyda byddin o wyth can mil o filwyr profiadol dewr.	
6	Aeth Abeia allan i ryfel gyda byddin o filwyr dewr. Roedd ganddo bedwar can mil o ddynion arbennig.	
7	Arweiniodd Abeia ei fyddin i'r Gogledd i amddiffyn y ffin.	
8	Dyma Abeia'n sefyll ar Fynydd Semaraïm ac edrychodd ar fyddin enfawr Brenin Jeroboam.	

9	Dwedodd, “Jeroboam ac Israel gyfan, gwrandwch arna i.	
10	Onid ydych chi'n gwybod bod yr ARGLWYDD, Duw Israel, wedi ymrwymo i roi'r frenhiniaeth i Dafydd a'i ddisgynyddion am byth? Ond mae Jeroboam wedi gwrthryfela yn erbyn ei feistr. Casglodd griw o rapsgaliwns diwerth o'i gwmpas.Dych chi'n llu mawr gyda'r ddau darw aur mae Jeroboam wedi gwneud i fod yn dduwiau i chi.	
11	Ond dych chi wedi cael gwared a'r offeiriaid, meibion Aaron a'r Lefiaid, ac wedi gwneud offeiriaid eraill i chi'ch hunain fel y cenhedloedd. Bellach mae unrhyw un sy'n dod i gysegru ei hunan gyda tarw ifanc a saith hwrdd yn cael bod yn offeiriad i'r duw sydd ddim yn dduw.	
12	Ond ein Duw ni ydy'r ARGLWYDD, a dŷn ni heb droi oddi wrtho. Meibion Aaron ydy'n hoffeiriaid sy'n ei wasanaethu, a'r Lefiaid yn eu helpu. Maen nhw'n llosgi aberthau ac arogldarth persawrus i'r ARGLWYDD bob bore a hwyr. Nhw hefyd sy'n cynnau'r lampau ar y ganhwyllbren aur bob gyda'r nos.	

13	Dŷn ni'n dal i gadw gorchmynion yr ARGLWYDD ein Duw, ond dych chi wedi troi oddi wrtho. Sylwch, Duw ydy'n capten ni a thrwmpedau ei offeiriaid e sy'n ein galw i ryfel. Bobl Israel, peidiwch ag ymladd yn erbyn Duw eich hynafiaid. Fyddwch chi ddim yn llwyddo.”	
14	Dyma Jeroboam yn anfon rhai o'i filwyr i fod yn barod i ymosod o'r tu cefn i fyddin Jwda. Felly tra roedd e'n wynebu Jwda, roedd eraill yn barod i ymosod o'r tu cefn.	
15	Dyma filwyr Jwda yn gweld y byddai'n rhaid iddyn nhw ymladd o'r tu blaen a'r tu ôl, a dyma nhw'n galw ar yr ARGLWYDD.	
16	Dyma'r offeiriad yn canu'r utgyrn, a dynion Jwda yn rhoi bloedd i ymosod.	
17	A dyma Duw yn taro Jeroboam a byddin Israel gyfan. Dyma fyddin Israel yn ffoi o flaen Jwda. Lladdodd Abeia a'i ddynion nifer fawr ohonyn nhw. Roedd pum can mil o ddynion gorau Israel wedi syrthio'n farw.	

18	Ennillodd Jwda am ei bod wedi dibynnu ar yr ARGLWYDD.	
19	Dyma Abeia yn ymlid ar ôl Jeroboam a chymryd oddi arno drefi Bethel, Ieshana ac Effron a'r pentrefi o'u cwmpas. Wnaeth Jeroboam ddim ennill grym yn ôl yn ystod cyfnod Abeia.	
20	Roedd Abeia'n dod yn fwy a mwy pwerus. Bu'n frenin am dair mlynedd. Pan fu farw daeth Asa ei fab yn frenin yn ei le.	
21	Cyfieithwyd gan www.beibl.net	Free Bible illustrations These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed by FreeBibleImages for free download under the terms of the Creative Commons Attribution Share-alike 3.0 unported licence. www.freebibleimages.org